Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Fawrth, 23 Ebrill 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer), Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Emrys Wynne ac Ifan Wyn.

234. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Menna Jones a Jabez Oakes.

235. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Jim Bryan ddatgan fudd personol yn eitem 13.3 – cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch fel Cadeirydd y Gymdeithas, Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne fudd personol yn eitem 4, cyflwyniad gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, fel aelod o Bwyllgor Gwaith y Fenter ac eitem 13.3 fel aelod o Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch. Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris budd personol ac ariannol yn eitem 13.3, Beicio Cymru, gan fod y sefydliad wedi trefnu lle i aros yn ei westy.

236. CYFLWYNIAD YNGHYLCH RHUTHUN DI-BLASTIG

Croesawodd y Maer Mair Davies a Nia Watkin i'r cyfarfod, a gwnaethant esbonio eu bod wedi cynnal tri chyfarfod hyd yma gyda'r nod o sicrhau statws Rhuthun Di-blastig. Er mwyn ennill y dyfarniad hwn mae angen iddynt weithio gyda chynghorau lleol, busnesau lleol, grwpiau a digwyddiadau cymunedol ac ysgolion ac ati. Mae lleoliadau ailgylchu pecynnau creision wedi'u sefydlu a hyd yma mae 9 busnes wedi cytuno i fod yn lleoliadau ail-lenwi poteli gyda dŵr. Mae'r criw bellach wedi ymrwymo i Ffrindiau'r Ddaear ac maent yn cyfarfod ar ail nos Lun y mis am 6 o'r gloch y nos yn y Wine Vaults. Cyflwynwyd cais i'r Cyngor Tref wneud penderfyniad i gefnogi lleihau'r defnydd o blastig un tro'n unig er mwyn dod yn Dref Di-blastig. Diolchodd y Maer iddynt am eu cyflwyniad a'u parodrwydd i ateb cwestiynau'r aelodau.
PENDERFYNWYD: *trafod y cynnig yng nghyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.*

237. CYFLWYNIADAU GAN CYNNIG A MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Croesawodd y Maer Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych i'r cyfarfod, yn dilyn y cais am gymorth ariannol a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol. Amlinellodd yr hun mae'r Fenter yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ymhlith pob oedran yn Rhuthun yn benodol. Mae'r Fenter, sy'n cynnwys 3.5 aelod o staff, yn cwmpasu Sir Ddinbych gyfan.
Yna croesawodd y Maer Kate Cordova o Cynnig, a esboniodd mai sefydliad nid er elw yw Cynnig sy'n trefnu amrywiol weithgareddau ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth, anawsterau iechyd meddwl ac anafiadau i'r ymennydd yn Sir Ddinbych a bod y cleientiaid cyfredol rhwng 16 ac 82 oed. Esboniodd bod 26 o unigolion o Rhuthun yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd, a bod rhagor ar y rhestr aros. Roedd y cais am gymorth ariannol ar gyfer llogi bysiau mini er mwyn galluogi pobl fregus i fwynhau teithiau cerdded a theithiau dydd a drefnir gan Cynnig. Diolchodd y Maer i'r ddwy am eu cyflwyniadau llawn gwybodaeth.
PENDERFYNWYD: *ystyried y ceisiadau am gymorth ariannol gan Fenter Iaith Sir Ddinbych a Cynnig yn y cyfarfod nesaf.*

238. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.
28.03 Gwasanaeth angladd cyn Glerc y Dref, Mr Dafydd Williams, Capel Bathafarn, Rhuthun
31.03 Gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun
06.04 Cinio Siarter Clwb Rotari Rhuthun yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd
13.04 Diwrnod agored rhandiroedd MIND Dyffryn Clwyd yn y Ganolfan, Llanfwrog

239. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfod ynghylch Sgwâr Sant Pedr, cyfarfod Tîm Tref Rhuthun, cyfarfodydd gyda Dafydd Evans, Kartre ynghylch yr Hen Lys, cyfarfod gyda Rhys Pitson ynghylch Rhodfa'r Rheilffordd, sesiwn Tîm Tref Taclus yng Nghwningar y Castell, cyfarfod gyda Helen Wyn, Cadwyn Clwyd, ynghylch yr Hen Lys, cyfarfod Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych yn Llanelwy, gwasanaeth angladd Dafydd Williams, gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr, cyfarfod gyda Michael Duane SECOM Security, digwyddiad galw heibio dathlu prosiect Awtistiaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yng Nghanolfan Naylor Leyland, cyfarfod gweithgor Neuadd y Dref Rhuthun, ymgyrch Tacluso'r Dref, cyfarfod gyda Llyr Huws Gruffydd AC ynghylch yr Hen Lys, cyfarfod gweithgor Sgwâr Sant Pedr a Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod gyda Carpenter Davies Ltd, cwmni gwasanaethau mecanyddol a thrydanol ynghylch gwresogi'r Hen Lys.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams a gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Stephen Beach	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams a gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Jim Bryan	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams, gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr ac ymgyrch Tacluso'r Dref.
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams, Eisteddfod Sir yr Urdd Cynradd yn Rhuthun, ymgyrch Tacluso'r Dref, Eisteddfod Sir yr Urdd Uwchradd yn Ysgol Brynhyfryd a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn y Banc Bwyd, gwasanaeth angladd Dafydd Williams a ffug gyfweliadau gyda disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Brynhyfryd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, gwasanaeth angladd Dafydd Williams, gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr, cyfarfod Drysau Agored Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Dave Snape	Pwyllgor Llywio Theatr John Ambrose, gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, gwasanaeth Cysegru'r Clychau yn Eglwys Sant Pedr, Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon a threfnu cyflwyniad ar 25 Ebrill gan CPT a datganiad i'r wasg ynghylch Rhuthun yn derbyn statws Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus
Cyng. Emrys Wynne	Gwasanaeth angladd Dafydd Williams.
Cyng. Ifan Wyn	

240. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Ymddiheurodd y Cynghorydd Emrys Wynne am y diffyg adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd at gais cynllunio MacBryde Homes am dai wrth ymyl Llys Famau, a bod y cwmni wedi cytuno i gynnal digwyddiad ymgynghori yn Nhrem y Foel, gyda'r dyddiad i'w gadarnhau. Cyfeiriodd hefyd bod y llwybr beicio ar hyd Ffordd Glasdir yn cael ei wella, a bod un man croesi wedi'i wella eisoes.

241. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019 yn gywir.*

242. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at gyfarfod gweithgor Neuadd y Dref, gan ddatgan ei fod wedi bod yn gyfarfod cynhyrchiol ac y byddai'r nodiadau'n cael eu dosbarthu i'r aelodau.

243. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019.*

244. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019.*

245. DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2019

Ystyriodd yr aelodau nodiadau cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chadarnhawyd enillwyr y gwobrau yn 2019.
PENDERFYNWYD*: y byddai'r Clerc yn cysylltu gydag enillwyr y gwobrau a'u henwebwyr i'w gwahodd i'r Cyfarfod Blynyddol i dderbyn eu gwobr.*

246. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL CH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried pedwar cais am gymorth ariannol:
Cymdeithas Sioe Rhuthun - £500 tuag at gynnal Sioe 2019, Clwb Bowlio Gorphwysfa - £500 tuag at brynu a gosod pafiliwn bowlio, Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r cylch - £500 tuag at y gweithgareddau gefeillio yn 2019 a Beicio Cymru - £2,500 tuag at ddigwyddiadau Treialon Amser a Ras Ffordd Pencampwriaeth Cymru yn Rhuthun ar benwythnos 1 a 2 Mehefin. Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi £500 i'r tri sefydliad cyntaf, yn unol â'u cais, ond gwrthod y cais gan Feicio Cymru.
PENDERFYNWYD*: rhoi cymorth ariannol o £500 i Gymdeithas Sioe Rhuthun, Clwb Bowlio Gorphwysfa a Chymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch, a gwrthod y cais gan Feicio Cymru.*

247. FFORWM CYFATHREBU RHUTHUN

Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Harris ohirio'r eitem hon tan ar ôl y cyfarfod i fusnesau Rhuthun i'w gynnal ar 24 Ebrill yn yr Hen Lys.
PENDERFYNWYD*: gohirio'r eitem hon tan ar ôl y cyfarfod ar 24 Ebrill.*

248. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Cadarnhaodd y Cynghorydd Gavin Harris bod grant o £10,000 wedi'i dderbyn gan Gronfa Gymuned y Loteri Genedlaethol. Bydd y wal yn cael ei thynnu ymaith cyn y penwythnos agored. Gofynnwyd i'r aelodau sydd ar gael i gynorthwyo yn yr Hen Lys yn ystod y penwythnos agored i hysbysu'r Dirprwy Faer er mwyn llunio rota. Sefydlwyd y dudalen Crowdfunding ac mae manylion am y trefniadau noddi ar gael. Y targed yw codi £8,000 erbyn 22 May, gyda tharged ymestynnol o £20,000.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

249. DIWEDDARIAD YNGHYLCH DYFODOL RHUTHUN – SGWÂR SANT PEDR

Esboniodd y Cynghorydd Gavin Harris bod diffygion y wybodaeth wedi'i seilio ar y map Arolwg Ordnans wedi dod i'r amlwg wrth geisio cynnal gwaith dadansoddi llwybr symudiadau cerbydau. Gofynnwyd am dri dyfynbris i sicrhau cywirdeb y gwaith a'r cynigion yn deillio o hynny.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

250. WYTHNOS DYFODOL RHUTHUN 2019

Darparwyd adborth ynghylch y digwyddiadau, a oedd wedi denu niferoedd da. Roedd y ffoto marathon wedi denu nifer o gystadleuwyr unwaith eto, ac roedd y wobr ar fin cael ei gyflwyno i'r enillydd.
PENDERFYNWYD*: nodi'r adborth.*

251. COFRESTRIAD DIOGELU DATA

Derbyniodd yr aelodau hysbysiad ynghylch y gofyniad i adnewyddu cofrestriad diogelu data Cyngor Tref Rhuthun ar gost o £40.

PENDERFYNWYD: *adnewyddu'r cofrestriad diogelu data am flwyddyn arall.*

252. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfrifon y Cyngor Tref am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019, a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r ffigurau i'w defnyddio fel y sail ar gyfer llenwi'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer yr archwilwyr. Cyfeiriodd aelodau at yr arian a gyfrannwyd yn dilyn y llifogydd yn ystad Glasdir, ac awgrymwyd cysylltu gyda'r Gymdeithas Trigolion.

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 a'r Ffurflen Flynyddol ddrafft.*

253. DATGANIAD ARIANNOL

Ymddiheurodd y Clerc nad oedd y datganiad wedi'i baratoi y mis hwn, gan ddatgan y byddai'n adlewyrchu'r ffigurau yn y cyfrifon blynyddol.

PENDERFYNWYD: *nodi'r sefyllfa.*

254. HYSBYSIAD ARCHWILIAD ALLANOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn hysbysiad gan BDO mai trefniadau archwilio allanol ar gyfer 2018/19 yw arddangos yr hysbysiad dim hwyrach na 16 Mehefin tan o leiaf 1 Gorffennaf 2019 ar hysbysfyrddau a gwefan y Cyngor, gyda'r dogfennau i'w cyflwyno erbyn 1 Gorffennaf 2019.

PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth a'r dyddiadau.*

255. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100130	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol, 26.04.19		£32.00
100131	Dŵr Cymru Welsh Water	Gwasanaethau yn yr Hen Lys, 20.02.19 – 20.03.19		£42.37
100132	Sandra Williams	Cyflog dyledus a chostau teithio		£31.90
100133	Gwasanaethau Coed Cymru	Tocio'r Coed ar Sgwâr Sant Pedr	*	£390.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£189.24
100134	The Play Inspection Company	Adroddiadau archwiliad blynyddol maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa a pharc sglefrfyrddio Cae Ddôl	*	£156.00
100135	Scottish Power	Trydan ar gyfer goleuadau'r coed Nadolig 2017-18		£87.07
100136	Scottish Power	Trydan ar gyfer goleuadau'r coed Nadolig 2018-19		£86.31
100137	Blachere Illumination UK Ltd	Llogi'r goleuadau Nadolig – trydedd flwyddyn cytundeb llogi tair blynedd	*	£3,789.25
100138	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100139	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£19.94
100140	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£43.20
100141	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Ebrill 2019		£352.26
100142	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Ebrill	*	£180.00
100143	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£354.12
100144	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyflogres a chyfrifyddu – ffi misol	*	£84.00
100145	Total Gas & Power	Bil nwy yr Hen Lys 19.01.19 – 28.02.19		£49.51

100146	Total Gas & Power	Bil nwy yr Hen Lys 01.03.19 – 31.03.19		£37.43
100147	Plantscape Ltd	Rholyn o ddeunydd wic ar gyfer y basgedi crog	*	£186.00

256. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y Cyfarfod Blynyddol fydd nos Lun, 13 Mai a dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 20 Mai 2019 am 7.00pm.*